

PLUG 16 WGS. 5.2

YCHYDIG O BENNILLION,

AR YR ACHLYSUR O FARWOLAETH

JOHN CHRISTOPHER,

PENTYRCH, SWYDD FORGANWG.

Yr hwn a ymadawodd a'r fychedd hon, Chwefror y 19eg, 1851: yn  
40 mlwydd oed—gwedi bod yn Aelod ffyddlon gyda'r Bedyddwyr  
yn Penuel.

Gan JOHN MORGAN.

O mor fyred yw fy neall,  
O mor ddyrus yw fy nhaith,  
Weithiau ar y brynau 'n llaweu,  
Weithiau yn y cwmydd flaith;  
Mae rhagluniaeth a'i holwynion,  
Mawr mor ddfwn yn y glyn,  
Llawer bore arnai 'n gwenu,  
Cyn yr hwyr yn rhyfedd syn.

Mil wyth cant a deg a deugain,  
Un yn rhagor yma gawn,  
Y pedwaredd dydd ar bumtheg,  
O Fis Chwefror, y prydawn;  
Gyda 'r awel denau gyflym,  
Cariwyd newydd syn i mi,  
Bod JOHN CHRISTOPHER fy ngyfaill,  
Wedi profi grym y lli'.

Pan a'r lwybr ei ddyledswydd  
 Lawr yn eigion llacwr laith,  
 Yno yn ddiwyd 'nol ei arfer,  
 Didwyll ydoedd yn ei waith ;  
 Darn o'r ddaear syrthiodd arno,  
 Rhodd ei esgeiriau ar wahan,  
 Yno teimlodd farwol ergyd,  
 Eto diolch oedd ei gan.

O na feddwn ddawn i ganu,  
 A chyhoeddi gyda blas,  
 'Rhyn a welwyd yma 'n amlwg ;  
 O rinweddau nefol rās ;  
 Yn y Brawd sydd wedi uno,  
 Rwi 'n hydyru yngwlad yr hedd,  
 Fe fu ffyddlon iawn a diwyd  
 Yn ei fywyd hyd ei fedd.

Rhodd ei enw yn Fedyddiwr,  
 Tangnefeddwr oedd efe,  
 Ar ei wên 'fe ymresymau ;  
 Ond gofalau gadw ei le.  
 'Rhyn a dalau yn afon angau,  
 Oedd ei gais a'i uchel lef ;  
 Ni chwenychau gyndyn ddadleu  
 Efangylwr ydoedd ef.

Penuel, ti gefaist golled,  
 Collaist gyfaill hoff a chu,  
 Collaist frawd i'th gynnorthwyo  
 Wrth dy angen fel y bu ;  
 Collaist un a ddwed ei feddwl,  
 Nid derbyniwr wyneb oedd ;  
 Collaist un i gammol Iesu,  
 Yn dy ganol gyda bloedd.

Collaist filwr o dy fyddin,  
 Milwr glew oddiar y ma's ;  
 Collaist un o feddwl äng,  
 Am holl athrawiaethau gras ;

Collaist ysgrythyrwr cyflawn,  
 Collaist un o berchen ffydd ;  
 Yn ddiddadl gan laweroedd,  
 Collaist un o blant y dydd.

Fyddlon oedd i gyrddau gweddi,  
 Addysg Sul, a'r Ysgol Gan,  
 Cyrddau Misol a Chwarterol,  
 Cymanfaoedd, byddai mla'n.  
 O mor barchus oedd yn siarad,  
 Am ei frodyr yn ei fyw,  
 Nid athrodwr oedd ei enw  
 Anrhydeddwr teulu Duw.

Brawd yn medru cydymdeimlo,  
 Nid mewn gair yu unig oedd,  
 Ond mewn gweithred a gwirionedd,  
 Yn ddirgelaidd, nid ar goedd.  
 O mor dirion oedd o gleifion,  
 Cyfaill oedd i'r gweinion wŷn ;  
 Llauer dernyn o'r llwch melun,  
 A rhad roddodd er eu mwyn.

Angau, Angau, di-drigaredd,  
 O mor lased yw dy gledd,  
 Pa'm y t'rawest eto ergyd,  
 Ergyd marwol hyd y bedd.  
 Pam cymeraist John mor sydyn,  
 Pam gosodaist ni mor syn ?  
 Pam na chawsau wely cystudd  
 I gael siarad am y glyn ?

Paid ymholi, gwel fy awdurdod,  
 Cymer Fibl yn dy law,  
 "Cyflog pechod yw marwolaeth,"  
 Cofia godwm Eden draw.  
 Fi yw'r brenin sy'n teyrnasu  
 A'r hil Adda is y rhôd,  
 Nid trigaredd yw fy enw,  
 Mynaf dithiau dan fy nhrôd.

Gwir yw 'th eiriau, maeth ryfeloedd  
 Yn di brofi 'n frenin braw,  
 'Rhaid cyfadde feth'neillduwyd  
 I dy swydd yn Eden draw.  
 Ti deyrnasaist yn gongewerwr,  
 Gwelaist derfyn llawer oes,  
 Ond feth lyncwyd mewn tragywyddol  
 Fyddugoliaeth ar y groes.

Angau dig gwna dy eitha'  
 Byth fe gofir bedd y graig,  
 Nid yw yma, adgyfododd,  
 Methaist gadw had y wraig.  
 Am i'r Iesu dy gongeweru  
 Myn i'w deulu chwarau teg,  
 Cred neu beidio, di gai ffeindio  
 Fod i'r cyflawn dranoeth deg.

Ffarwel Dad rwy, wedi 'madel,  
 Ffarwel Daniel William 'gu,  
 Ffarwel Mari Ann a Sarah,  
 Ffarwel Rachel, felly bu,  
 Ffarwel Harriet a Susannah  
 Hyn yw 'm wyllys i chwimwy,  
 Ymddyriedwch yn yr Iesu,  
 Wele noddfa yn ei glwy.